



Disgrifiad Swydd

Adran Gwasanaethau Cymdeithasol

Teitl Swydd	Gweithiwr Cefnogi Teuluoedd yn Gyntaf - (Gofalwyr Di-dâl - Oedolion Ifanc) (cyfnod penodol tan 31 Mawrth 2027 oherwydd cyllid grant)		
Rhif Swydd	BG – swydd newydd	Gradd	Graddfa 6
Canolfan	Gweithiwr Hyblyg	Oriau Gwaith	22.12 awr
Lwfans Defnyddiwr Car		Datgeliad	Manwl
Cyswllt	Nicola Dawson	Diweddarwyd	Chwefror 2025

Prif Bwrpas y Swydd

Darparu cymorth a chyngor i ddinasyddion Blaenau Gwent yn eu rôl fel Gofalwr di-dâl i berson sy'n derbyn gofal; cynnal Asesiadau Gofalwyr a darparu cyswllt hanfodol rhwng pobl, gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol a'r rhwydwaith lles ehangach.

Yn atebol i'r: Rheolwr Tîm – Teuluoedd yn Gyntaf

Yn gyfrifol am: Ddarparu cymorth i Ofalwyr di-dâl drwy nodi camau gweithredu a all helpu i gynnal y rôl ofalu wrth gefnogi iechyd a lles y Gofalwr. Cyflawnir hyn drwy ganolbwyntio ar ganlyniad yr Asesiad Gofalwr neu drwy sicrhau bod y Gofalwr yn deall ei hawliau.

Prif Atebolrwydd

1. Cynnal asesiadau cymesur Gofalwyr, nodi canlyniadau personol ac atebion yn seiliedig ar asedau gan gynnwys hyrwyddo cyfleoedd i gefnogi gydag atebion technoleg.
2. Cynorthwyo'r Cyngor i ddatblygu gwasanaethau Gofalwyr a/neu rwydweithiau cymorth i Ofalwyr yn y fwrdeistref.
3. Gweithio gyda chydweithwyr i hwyluso Fforwm Darparwyr Gofal Blaenau Gwent.
4. Nodi tueddiadau o Asesiadau Gofalwyr ac effaith y canlyniadau a nodwyd.

5. Nodi Gofalwyr yn yr ardal leol gan eu helpu i ddatblygu cysylltiadau â chyfoedion a/neu rwydweithiau cymorth i helpu i leddfu teimladau o unigedd.
6. Cynhyrchu gwybodaeth at ddibenion adrodd e.e. Orlhain y Ddeddf, Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.
7. Gweithio gyda chydweithwyr yn y Gwasanaethau Plant i hyrwyddo cymorth i Ofalwyr Ifanc i sicrhau dull cydgysylltiedig a theg ar draws y Cyngor.
8. Gweithio'n agos gyda chydweithwyr ar draws ardal ehangach BPRh Gwent i hyrwyddo a datblygu gwaith cydweithredol a darparu gwasanaethau ar draws y rhanbarth ymhellach trwy gymryd rhan yn y Grŵp Gweithredol Oedolion a Phobl Ifanc sy'n Gofalu.
9. Gweithio gyda sefydliadau partner a thrydydd sector i ddarparu cyfleoedd hyrwyddo a digwyddiadau cymunedol wedi'u trefnu sy'n hyrwyddo rôl Gofalwyr, megis Diwrnod Hawliau Gofalwyr a'r Wythnos Gofalwyr, a chefnogi mynediad at Gynllun Grantiau Bach ac ati.
10. Rheoli gwariant ar y gyllideb a ddyrennir i'r gwasanaeth Gofalwyr a defnyddio'r gyllideb hon yn effeithiol at ddiben cefnogi digwyddiadau; nwyddau Gofalwyr ac ati.
11. Codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo cyfleoedd a mentrau, megis argaeledd cyllid ychwanegol a/neu adnoddau eraill i Ofalwyr, drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yr ALI
12. Cefnogi ein partneriaid Trydydd Sector i gynhyrchu a dosbarthu gwybodaeth drwy gynhyrchu Cylchlythyr Gofalwyr bob chwe mis.
13. Cynrychioli'r ALI drwy gymryd rhan weithredol gyda Rhwydwaith Dysgu a Gwella Swyddogion Gofalwyr Cymru Gyfan (COLIN).
14. Sicrhau cyfrinachedd a chydymffurfiaeth â'r holl godau ymarfer perthnasol, diogelu data deddfwriaethol, a pholisïau a gweithdrefnau Diogelwch Gwybodaeth a Chyfrinachedd yr Awdurdod Lleol ei hun.
15. Cadw at egwyddor y Polisi Cydraddoldeb Corfforaethol a sicrhau ymrwymiad i arfer gwrthwahaniaethol.
16. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill a allai fod yn ofynnol gennych chi, yn gymesur â'ch gradd neu'ch lefel gyffredinol o gyfrifoldeb o fewn y sefydliad.

Manyleb Person Gweithiwr Cymorth - Gofalwr

1. Cymwysterau a phrofiad	Dull Asesu				
	Hanfodol / Dymunol	Ffurfl. Gais	Cyfweliad	Arall (nodwch)	Cyfnod Prawf
Cymwysterau/profiad perthnasol					
NVQ / QCF Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 3 perthnasol neu gymhwyster iechyd a gofal cymdeithasol cyfatebol.	H	✓			
Cwrs Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol (SSP) i alluogi cynnal asesiadau cymesur	D	✓			
Profiad o gynnal asesiadau gofal cymdeithasol/gofal iechyd	H		✓		
Profiad o weithio amlddisgyblaethol gyda gweithwyr proffesiynol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.	H		✓		
Profiad o weithio gydag oedolion neu blant sy'n agored i niwed a/neu eu gofalwyr.	H	✓			
Gwybodaeth/Sgiliau					
Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddeddfwriaeth berthnasol sy'n gysylltiedig â gofal cymdeithasol e.e. Deddf Llesiant a Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014.	H	✓			
Sgiliau TG rhagorol wrth ddefnyddio systemau e.e. Microsoft Office, WCCIS.	H	✓			
Gwybodaeth am fanteision defnyddio technoleg gynorthwyol	D	✓			
Dealltwriaeth o'r cysyniad o risg ac ymwybyddiaeth o amddiffyn oedolion, plant a phobl ifanc sydd mewn perygl	H		✓		
Y gallu i feithrin perthynas waith dda gydag unigolion a'u gofalwyr	H		✓		
Y gallu i gydlynu a chynhyrchu asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth i safon uchel.	H		✓		

2. Gofynion Arbennig	Hanfodol / Dymunol	Ffurflen Gais
Yr angen i fod yn hyblyg gydag oriau gwaith i ddiwallu anghenion y Gwasanaeth	H	✓
Trwydded yrru lawn ddilys a'r defnydd o gar at ddibenion gwaith	H	✓

3. Gofynion y Gymraeg (dewiswch un o'r canlynol)	Hanfodol / Dymunol	Ffurflen Gais	Cyfweliad	Arall (nodwch)	Cyfnod Prawf
Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol (lefel 0 ym mhob Lefel Cymraeg uchod)	Dymunol	✓			

	Lefel 0	Lefel 1	Mynediad	Lefel 2 Sylfaen	Lefel 3 Canolradd	Lefel 4 Uwch	Lefel 5 Hyfedr
Gwrando/Siarad	X						
Darllen/Deall	X						
Ysgrifennu	X						

4. Cymwyseddau Personol

Ystyrir bod pob cymhwysedd yn hanfodol, er y cydnabyddir y gellir cyflawni rhai dros gyfnod o amser. Disgwylir i bob cyflogai ddatblygu ei gymwyseddau yn barhaus yn unol â'r fframwaith priodol. Yn ogystal â'r rhai sy'n cael eu hasesu fel rhan o'r broses recriwtio, bydd cymwyseddau yn cael eu hasesu yn ystod y cyfnod prawf ac wedyn drwy gynllun hyfforddi perfformiad yr Awdurdod.

Dull Asesu

Pwnc	Cymwyseddau	Ffurf. Gais	Cyfweliad	Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychu, ac ati (nodwch)	Cyfnod Prawf / Hyfforddiant Perfformiad
Darparu'r gwasanaeth	Cynllunio ymlaen llaw, trefnu gwaith ymlaen llaw.				✓
	Yn cynnwys rheolwr llinell/cydweithwyr wrth osod a bodloni targedau.				✓
	Aildrefnu gwaith pan fo angen.				✓
	Yn cwblhau tasgau pryd bynnag y bo modd.				✓
	Ceisio cymorth os bydd y llwyth gwaith yn dod yn anymarferol.				✓
	Yn defnyddio menter i roi gwybod am faterion sy'n codi sy'n effeithio ar eraill.				

Pwnc	Cymwyseddau	Ffurf. Gais	Cyfweliad	Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychu, ac ati (nodwch)	Cyfnod Prawf / Hyfforddiant Perfformiad
Gwella a Newid	Yn barod i roi cynnig ar bethau newydd a rhoi adborth ar ganlyniadau.				✓
	Deall bod angen newidiadau os yw pethau'n mynd i gael eu gwella.				✓
	Dod o hyd i ffyrdd newydd a chreadigol o wneud pethau'n well.				✓
	Ceisio datblygu ei sgiliau a'i wybodaeth eu hun yn weithredol.				✓
	Dysgu o gamgymeriadau ac yn croesawu adborth adeiladol.				

Pwnc	Cymwyseddau	Ffurf. Gais	Cyfweliad	Arall e.e. cyflwyniad, grŵp	Cyfnod Prawf / Hyfforddiant
------	-------------	-------------	-----------	-----------------------------	-----------------------------

				trafod, efelychu, ac ati (nodwch)	Perfformiad
Darparu Gwasanaeth Cwsmeriaid Ardderchog	Yn cydnabod pwysigrwydd safonau uchel o wasanaeth cwsmeriaid.				✓
	Wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth ardderchog i holl ddinasyddion Blaenau Gwent.				✓
	Deall y cysylltiadau rhwng ei broffesiynoldeb ei hun a'r effaith bosibl ar ddelwedd yr Awdurdod.				✓
	Agwedd broffesiynol sy'n gosod esiampl i gydweithwyr.				✓
	Ymfalchïo yn ei waith ei hun a gwaith gydweithwyr.				✓
	Yn barchus, yn gwrtais ac yn barod ei gymwynas bob amser.				✓

Pwnc	Cymwyseddau	Ffurf. Gais	Cyfweliad	Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychu, ac ati (nodwch)	Cyfnod Prawf / Hyfforddiant Perfformiad
Gwaith Tîm	Ymateb yn adeiladol i awgrymiadau a cheisiadau gan eraill.				✓
	Yn cydnabod gwerth bosibl barn pobl eraill gan fynd ati'n weithredol i geisio eu cyfraniadau.				✓
	Gofyn am help pan fo angen.				✓
	Ceisio helpu eraill.				✓
	Bod yn ymwybodol o effaith ei ymddygiad ei hun ar eraill.				✓

Pwnc	Cymwyseddau	Ffurf. Gais	Cyfweliad	Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychu, ac ati (nodwch)	Cyfnod Prawf / Hyfforddiant Perfformiad
Cyfathrebu	Addasu cynnwys ac arddull i helpu eraill i ddeall.				✓
	Sicrhau bod pobl yn cael gwybodaeth yn rheolaidd.				✓
	Defnyddio iaith, ystumiau a thôn briodol wrth siarad ag eraill.				✓
	Gwirio bod eraill wedi deall gan geisio cyngor pan fo angen.				✓
	Ceisio gwella pob math o gyfathrebu ag eraill.				✓
	Cyfathrebu'n broffesiynol drwy ddefnyddio sianeli ffurfiol sy'n briodol i'r sefyllfa.				✓

